MORGAN (TEULU), Tredegar Park, etc., sir Fynwy

Rhoddir llinach y teulu hwn yn y gweithiau arferol ar y teuluoedd tiriog a'r bendefigaeth - Burke, Debrett, etc.; gweler hefyd y manylion yn G. T. Clark, *Limbus Patrum Morganiae et Glamorganiae*. Argreffir (neu fraslunir) rhai dogfennau ynglyn â rhai o'r Morganiaid, yn enwedig Morganiaid Tredegyr (Tredegar) a Morganiaid Llantarnam, gan George Blacker Morgan yn ei *Historical and Genealogical Memoirs of the Morgan Family as represented in the Peerage of Ireland by the Right Hon. the Baron Tredegar* (London, tair cyfrol, 1895?-7). Gan fod rhai o'r Morganiaid yn cael sylw ar wahân, disgrifiad cyffredinol a roddir yma.

Olrheinir ach y teulu (fel rheol) hyd at LYWELYN ab IFOR, arglwydd S. Clêr a Gwynfor, Sir Gaerfyrddin, trwy etifeddiaeth, ac arglwydd Tredegar a Chyfoeth Feredydd trwy ei wraig, Angharad, ferch Syr Morgan ap Maredydd, arglwydd Tredegar. Dywedid fod Llywelyn yn disgyn o Gadifor Fawr, arglwydd Cilsant.

Heblaw ei aer, MORGAN ap LLEWELYN, yr oedd i Lywelyn ab Ifor fab o'r enw IFOR, Gwernyclepa, sir Fynwy - sefydlydd teulu Morganiaid Gwernyclepa; daeth tiroedd y teulu hwn yn eiddo teulu Tredegar yn 1632. Bu i Morgan ap Llewelyn (a fu farw cyn 1384) ddau fab - LLEWELYN ap MORGAN (yn fyw yn 1387) a PHILIP ap MORGAN; yr ail oedd sefydlydd Morganiaid Llantarnam.

Parhaodd y llinell union, o Llewelyn ap Morgan, trwy IEUAN ap LLEWELYN ap MORGAN, a Syr JOHN MORGAN, ' Knight of the Sepulchre, 1448, stiward Gwynllwg, a urddwyd yn farchog 26 Mehefin 1497. Mab iau i Syr John Morgan oedd THOMAS MORGAN, Machen (yn fyw yn 1538), ' Esquire of the Body ' i'r brenin Harri VII ac hen hen hen hen ewythr MILES MORGAN, a gollodd ei long (*The Red Lion*) a'i fywyd yn 1578 pan yn cymryd rhan yn ymgyrch Syr Humphrey Gilbert i America; amdano ef gweler G. Blacker Morgan, op. cit. Aer Thomas Morgan oedd ROWLAND MORGAN (1517? - 1557), Machen, brawd y John Morgan a sefydlodd deulu Morganiaid Basaleg. Bu i ROWLAND MORGAN ddau fab a phedair merch. Yr aer oedd THOMAS MORGAN, Machen a Tredegar; brawd iddo oedd HENRY MORGAN, sefydlydd Morganiaid Llanrhumney. Mab Thomas Morgan oedd Syr WILLIAM MORGAN (y mae ei ewyllys ef wedi ei dyddio 16 Ionawr 1650). Ef a groesawodd y brenin Siarl I i Dredegar, 16 a 17 Gorffennaf 1645. Dilynwyd ef gan ei fab hynaf o'i wraig gyntaf - THOMAS MORGAN (bu farw 18 Hydref 1666), tad yr Elizabeth Morgan a briododd Sir Trevor Williams, Llangibby. Mab i William Morgan o'i ail wraig, Bridget, ferch ac aeres Anthony Morgan, Heyford, sir Northampton, oedd yr ANTHONY MORGAN (a fu farw 1665), y Brenhinwr y ceir ei hanes yn y *D.N.B.*, a ddywed, fodd bynnag, mai Syr William Morgan oedd ei dad. [Ceir nodyn byr yn y *D.N.B.* am drydydd ANTHONY MORGAN (*fl.* 1652), sef hwnnw y dywedir ei fod o Feirin a'r ' Casebychan ' (? Casbach), sir Fynwy, ac a aeth i wasanaeth iarll Worcester yn 1642; gweler ymhellach *Cal. of Comm. for Compounding*, rhan iii, 2123; rhan iv, 2807, a *Commons Journals*, vii, 153.]

Aer y Thomas Morgan a fu farw yn 1666 oedd WILLIAM MORGAN (bu farw 28 Ebrill 1680). Priododd, 1661, Blanche, ferch William Morgan, Thirrow, sir Frycheiniog, a mab o'r briodas hon oedd THOMAS MORGAN (1664 - 1699), a briododd Martha, ferch Syr Edward Mansel, Margam, Sir Forgannwg. Ymdrinir â llythyrau ynglyn â Thomas Morgan a'i briodas yn nhrydedd gyfrol catalog Ll.G.C. o ddogfennau Margam; gweler hefyd o dan teulu Mansel, Margam. Bu'r Thomas Morgan hwn farw yn ddi-etifedd ac aeth yr eiddo i'w frawd John Morgan (1670 - 1719/20), Tredegar a Rhiwperra, arglwydd-raglaw siroedd Mynwy a Brycheiniog a phleidiwr y Chwigiaid. Bu ei fab, Syr William Morgan (1700 - 1731), K.B., hefyd yn arglwydd-raglaw y ddwy sir; gweler G. Blacker Morgan, op. cit., ii, 1-4. Bu ei fab ef, William Morgan (1725 - 1763), farw yn ddibriod a dilynwyd ef gan ei ewythr, THOMAS MORGAN (1702 - 1769), Rhiwperra, a ddilynwyd gan ei fab THOMAS MORGAN (1727 - 1771), Tredegar, arglwydd-raglaw siroedd Mynwy a Brycheiniog, a oedd yntau'n ddibriod pan fu farw. Aer olaf Morganiaid Tredegar oedd JANE MORGAN, merch y Thomas Morgan a fu farw yn 1769. Priododd Jane Morgan (1731 - 1797) yn 1758. Ei gwr oedd CHARLES GOULD, a ddaeth yn Syr Charles Gould, barwnig, ar 15 Tachwedd 1792. Yr oedd yn aelod o'r Cyfrin Gyngor, yn LL.D., ' Advocate-General and Judge Marshal of H.M. Forces,' ac yn aelod seneddol dros sir Frycheiniog mewn tair Senedd (Williams, *The parliamentary history of the principality of Wales*). Mabwysiadodd gyfenw ac arfbais teulu Morgan (Tredegar). Bu Lady Morgan farw 14 Chwefror 1797, a bu ei gwr, Syr CHARLES GOULD MORGAN, barwnig, farw ar 6 Rhagfyr 1806 a'i ddilyn gan y cyrnol Syr CHARLES MORGAN (1760 - 1846), ail farwnig. Yr oedd ef yn gapten yn y Coldstream Guards, yn aelod seneddol dros sir Frycheiniog, 1787-96, a thros sir Fynwy, 1796. Ymhlith ei blant o'i wraig gyntaf (Mary Margaret, merch Capt. George Stoney, R.N.) yr oedd (*a*) y barwn Tredegar 1af, (*b*) AUGUSTUS SAMUEL MORGAN, rheithor Machen a changhellor eglwys gadeiriol Llandaf, a (*c*) Charles Swinnerton Octavius Morgan.

Mab hynaf Syr Charles Morgan, yr ail farwnig, oedd CHARLES ROBINSON MORGAN (1792 - 1875), barwn Tredegar (crewyd 16 Ebrill 1859), arglwydd-raglaw sir Frycheiniog, sir y bu yn ei chynrychioli yn y Senedd hefyd am gyfnod. Trwy ei wraig, Rosamund, merch y Cadfridog Godfrey Basil Munday, yr oedd yn dad (*a*), CHARLES RODNEY MORGAN (1828 - 1854), aelod seneddol dros sir Frycheiniog, a fu farw yn ddibriod, (*b*) Godfrey Charles Morgan, ail farwn Tredegar (isod), a (*c*) FREDERICK COURTENAY MORGAN (1834 - 1909), Rhiwperra.

Enillodd GODFREY CHARLES MORGAN (1831 - 1913), ail farwn ac is-iarll Tredegar, enw iddo'i hun yn rhyfel y Crimea; y mae llythyrau (yn Ll.G.C.) a ysgrifennwyd o'r Crimea ganddo ef a'i frawd, Frederick Courtenay Morgan, at eu mam. Yr oedd yr ail

farwn yn flaenllaw ym mywyd cymdeithasol, diwydiannol, ac addysgol Deheudir Cymru; y mae cof-ddelw ohono (ar farch) ym Mharc Cathays, Caerdydd. Bu'n aelod seneddol sir Frycheiniog, 1858-75, ac yn arglwydd-raglaw sir Fynwy. Gwnaethpwyd ef yn is-iarll Tredegar, 28 Rhagfyr 1905, eithr gan iddo farw yn ddibriod (11 Mawrth 1913) daeth yr is-iarllaeth i ben. Dilynwyd ef fel barwn gan ei nai, COURTENAY CHARLES EVAN MORGAN (1867 - 1934), 3ydd barwn Tredegar, a grewyd yn is-iarll Tredegar ar 4 Awst 1926. Bu ef yn gwasnaethu yn y rhyfel â'r Boeriaid ac yn rhyfel 1914-8.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

Enwyd y prif ffynonellau yng nghorff yr erthygl

Darllen Pellach

Ymddiriedolaeth Genedlaethol: Meet the Morgan family

Erthygl Wicipedia: Charles Morgan Robinson Morgan

Erthygl Wicipedia: Frederick Courtenay Morgan

Erthygl Wicipedia: Charles Octavius Swinnerton Morgan

Erthygl Wicipedia: Godfrey Morgan, Is-iarll 1af Tredegar

Delweddau

G. F. Harris, The Right Hon. Lord Tredegar

J. Austin Jenkins, W. T. Pike (gol.), The Right Hon. Viscount Tredegar, J.P., D.L., *South Wales and Monmouthshire at the opening of the twentieth century: Contemporary biographies* (Brighton 1907), t.183

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q27839530

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu